Ffordd Ddosbarthu'r Morfa – Cam 2, Adroddiad Cynnydd 3

Priffyrdd a Chludiant

Yn ddiweddar, tynnwyd lluniau o'r awyr o'r gwaith parhaus i adeiladu Cam 2 Ffordd Ddosbarthu'r Morfa. Mae'r rhain yn rhoi syniad clir o raddfa'r gwaith sy'n cael ei wneud a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Ar ôl cwblhau'r gwaith draenio, mae'r gwaith o osod cyrbau wedi dechrau a bydd gwaith ailwynebu'n dechrau cyn bo hir.

Ar ôl ennill cais Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru eleni, mae'r gwaith yn parhau i ehangu'r ffordd ogleddol oddeutu 400m drwy hen safle Yorkshire Imperial Metals, ac i'r de hyd at gyfyngiad presennol Ffordd y Morfa. Bydd hyn yn galluogi i waith ddatblygu ar y cyd â rhaglen i ddatblygu safle tai ar hen safle iard Hasties a mwyafu manteision ariannol ac amgylcheddol ailddefnyddio deunyddiau a gloddiwyd yn ystod y cynllun.

Am fwy o wybodaeth am gynllun Ffordd Ddosbarthu'r Morfa, ewch i wefan prosiect y cyngor yn www.abertawe.gov.uk/ffordddddosbarthurmorfa

Ffordd Ddosbarthu'r Morfa Cam 2

13.7.15

CITY AND COUNTY OF SWANSEA
DINAS A SIR ABERTAWE
Adran yr Amgylchedd – Cludiant a Pheirianneg
www.swansea.gov.uk